BCW/2022/ 2il Gyfarfod

**Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 2pm ddydd Mercher 15 Mehefin 2022 ac am 9.30am ddydd Iau 16 Mehefin 2022 yn Nhŷ Hastings a thrwy Microsoft Teams.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mrs Ustus Jefford | Dirprwy Gadeirydd |
| Pam Whitman | Aseswr (yr Arolwg Ordnans) – Ymunodd am 15:00 - 15 Mehefin yn unig |
| Huw Vaughan Thomas | Comisiynydd |
| Sam Hartley | Comisiynydd |
| Steven John Phillips | Comisiynydd Cynorthwyol – 15 Mehefin yn unig |
| Arun Midha | Comisiynydd Cynorthwyol – 15 Mehefin yn unig |
| Andrew Clemes | Comisiynydd Cynorthwyol – 15 Mehefin yn unig |
| Gwenllian Lansdown Davies | Comisiynydd Cynorthwyol – 15 Mehefin yn unig |
| Shereen Williams | Ysgrifennydd y Comisiwn |
| Tom Jenkins | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Huw Blacker | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Cher Cooke | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn - 15 Mehefin yn unig |
| Carys Vaughan | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |

**15 Mehefin 2022, Amser Dechrau: 14:03 Amser Gorffen: 15:15**

**16 Mehefin 2022, Amser Dechrau: 09:40 Amser Gorffen: 15:08**

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGANIADAU BUDDIANNAU

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Neil Park, Aseswr (y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

## 3. ADRODDIAD Y COMISIYNWYR CYNORTHWYOL

3.1. Diolchodd y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r Ysgrifennydd a staff yr ysgrifenyddiaeth am eu cymorth drwy gydol y broses.

3.2. Ystyriodd y Comisiwn gyflwyniad y Comisiynwyr Cynorthwyol.

3.3. Ymatebodd y Comisiynwyr Cynorthwyol i gwestiynau gan y Comisiynwyr.

3.4. Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i'r Comisiynwyr Cynorthwyol am eu gwaith diwyd drwy gydol y broses ac am eu hadroddiad manwl.

3.5. Caeodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod am 15:15 ddydd Mercher 15 Mehefin 2022.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

4.1. Agorodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod am 09:40 ddydd Iau 16 Mehefin 2022.

4.2. **Cytunodd** y Comisiwn ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Llun 7 Chwefror 2022.

## 5. MATERION YN CODI

5.1. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau ar faterion a gododd o gyfarfod y Comisiwn ar 7 Chwefror 2022.

**Mater 1 – Cyhoeddi Cynrychiolaethau**

5.2. **Nodwyd** bod yr holl gynrychiolaethau a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori wedi cael eu cyfieithu a'u bod yn barod i'w cyhoeddi. Mae trawsgrifiadau'r gwrandawiadau cyhoeddus gyda'r cyfieithwyr ar hyn o bryd a disgwylir iddynt gael eu dychwelyd ar ddechrau mis Gorffennaf.

5.3. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r cynrychiolaethau a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori ar ffurf pdf ar wefan y Comisiwn Ffiniau i Gymru yr wythnos nesaf. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn cyhoeddi trawsgrifiadau'r gwrandawiadau cyhoeddus pan fyddant yn cael eu dychwelyd gan y cyfieithydd ac y bydd yn hysbysebu'r ffaith eu bod wedi'u cyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol.

**Mater 2 – Cyhoeddi adroddiad gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd**

5.4. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn pwysleisio yn yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig, y Cynllun Cyfathrebu ac ar y wefan na fydd yn ystyried cynrychiolaethau a dderbynnir ynglŷn â ffiniau newydd y Senedd ar ôl cyhoeddi'r cynigion diwygiedig.

**Mater 3 – Cyllideb 2022/23 y Comisiwn Ffiniau i Gymru**

5.5. **Nodwyd** bod yr Is-adran Noddi wedi cytuno â chais y Comisiwn am gyllideb ar gyfer 2022/ 23, sef £565,070.

## 6. COFRESTR RISG

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 17 Mai 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** y Gofrestr Risg.

6.2. **Nodwyd** na wnaed unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf gan nad oedd y Tîm Rheoli wedi cyfarfod i adolygu'r gofrestr. **Cytunwyd** y byddai'r Gofrestr Risg yn cael ei hanfon at y Comisiynwyr pe byddai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud yng nghyfarfod y Tîm Rheoli yr wythnos nesaf.

## 7. OPSIYNAU AR GYFER CYNIGION DIWYGIEDIG

7.1. Ystyriodd y Comisiwn yr adroddiad dyddiedig 30 Mai 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

7.2. Ystyriodd y Comisiwn gynlluniau a gyflwynwyd gan Bleidiau Gwleidyddol, y Comisiynwyr Cynorthwyol ac Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, fel y dangoswyd yn y Papur Opsiynau.

7.3. Ymatebodd Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn i gwestiynau gan y Comisiynwyr.

7.4. Gofynnodd y Comisiynwyr i Ystadegau Cymharol ar gyfer yr holl gynlluniau gael eu hanfon atynt.

7.5. Ar ôl ystyried a thrafod, **cytunodd** y Comisiwn ar Gynllun ar gyfer y Cynigion Diwygiedig a fydd yn cael ei amlinellu gan y Comisiwn yn ei Adroddiad Cynigion Diwygiedig.

7.6. Ystyriodd y Comisiwn yr enwau ar gyfer yr etholaethau arfaethedig newydd a chytunodd ar enw ac enw amgen yn yr iaith arall ar gyfer pob etholaeth, lle y bo'n briodol.

7.7. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn pwysleisio yn yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig fod y ddeddfwriaeth yn cyfyngu ar allu'r Comisiwn i ddatrys yr holl faterion a gyflwynwyd yn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd.

7.8. **Cam gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i anfon Ystadegau Cymharol cynlluniau at y Comisiynwyr.

## 8. Y GYMRAEG

8.1. Ystyriodd y Comisiwn yr adroddiad dyddiedig 8 Mehefin 2022 gan yr Ysgrifennydd.

8.2. **Nodwyd** bod adroddiad 2021/ 22 ar y Gymraeg yn debyg i adroddiad 2020/ 21. Amlygwyd na chynhaliwyd unrhyw recriwtio yn ystod y flwyddyn, ni wnaed unrhyw gwynion ac ni chodwyd unrhyw faterion gweithredol.

8.3. **Cytunodd** y Comisiwn i fabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg ar gyfer 2021/22. Bydd yr adroddiad yn cael ei anfon i'w gyfieithu ac yn cael ei gyhoeddi.

## 9. UNRHYW FATER ARALL

9.1. **Cytunwyd** y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 4.30pm ar 27 neu 28 Gorffennaf. Bydd y Dirprwy Gadeirydd yn cadarnhau'r dyddiad sy'n well ganddi ar ôl y cyfarfod.

9.2. **Nodwyd** y bydd yr adroddiad Cynigion Diwygiedig yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref 2022.

9.3. **Cytunwyd** y dylai'r Comisiynwyr a staff yr Ysgrifenyddiaeth gyfarfod â'r Comisiynwyr Cynorthwyol cyn cyhoeddi'r adroddiad Cynigion Diwygiedig i drafod argymhellion y Comisiwn. Bydd yr Ysgrifennydd yn gwneud trefniadau i'w gwahodd i'r cyfarfod pan gytunir ar ddyddiad ar gyfer cyfarfod mis Medi.

9.4. **Cam gweithredu:** Yr Ysgrifennydd i wahodd y Comisiynwyr Cynorthwyol i gyfarfod mis Medi.

9.5. **Cam gweithredu:** Y Dirprwy Gadeirydd i gadarnhau'r dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.

9.6. Caeodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod am 15:08 ddydd Iau 16 Mehefin 2022.